

**Cynnig i Newid Ystod Oedran
Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11**

Adroddiad Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246618

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol ..	3
Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	6
Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn	7
Ymgynghori â Disgyblion	9
Opsiynau Eraill.....	10

Crynodeb Gweithredol

Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 11 Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig i:

- Newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 11 Ionawr 2021, yr un pryd â chyhoeddi'r cynnig, a daeth i ben ar 16 Gorffennaf 2021. Daeth 36 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r digwyddiadau ymgynghori â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg ar-lein	E-bost	Cyfanswm
34	2	36

Rhaid nodi bod pob un o'r 36 o sylwadau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

Digwyddiadau Ymgynghori

Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach, ac, o ganlyniad, cafodd sesiynau galw heibio rhithwir eu cynnal drwy Microsoft Teams.

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ffurfiol rithwir ar **4 Chwefror 2021 am 10:30am**. Mynychodd 1 rhanddeiliad sesiwn galw heibio yr ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u categorio i'r themâu canlynol:

Cefnogol

- Thema 1 - Dim rheswm
- Thema 2 - Gwell darpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar
- Thema 3 - Cefnogaeth i'r Cynnig
- Thema 4 - Tegwch y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar
- Thema 5 - Ariannu
- Thema 6 - Cyfleusterau sydd eu hangen

Pryderon

- Thema 1 - Cydraddoldeb
- Thema 2 - Sicrhau cyllid priodol

Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	92%	Ddim yn gefnogol	8%
----------	-----	------------------	----

Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 16 Gorffennaf 2021 cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law.

Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (a elwid gynt yn Fwrdd Gweithredol) a allai benderfynu cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch gydag addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol, neu ail-lunio'r cynnig yn sylweddol ac ailymgynghori.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, caiff hwn ei gyhoeddi maes o law.

Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
Sylwadau Cefnogol a Gafwyd				
1.	Dim rheswm Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.		22	61%
2.	Gwell darpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar Roedd ymatebwyr yn cydnabod budd cael mynediad i ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar o 3 oed yn yr ysgol.	Nod y cynnig yw darparu darpariaeth gyfartal yn ardal Llanelli, gan gysoni Ysgol Swiss Valley ag ysgolion cyfagos sydd eisoes yn ysgolion 3-11 oed. Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg cynllun peilot ers nifer o flynyddoedd. Mae canlyniadau'r cynllun peilot wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r Awdurdod Lleol bellach yn dymuno bwrw ymlaen â chynnig i newid ystod oedran yr ysgol i 3-11 trwy ymgynghoriad ffurfiol.	6	17%
3.	Cefnogaeth i'r Cynnig Nododd ymatebwyr eu bod yn llwyr gefnogi'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11, fel bo'r ysgol yr un peth â'r ysgolion cyfagos.	Nodwyd y gefnogaeth.	2	6%

4.	<p>Tegwch y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau bod cysondeb o ran mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar draws y Sir.</p>	<p>Nod y cynnig yw darparu darpariaeth gyfartal yn ardal Llanelli, gan gysoni Ysgol Swiss Valley ag ysgolion cyfagos sydd eisoes yn ysgolion 3-11 oed.</p> <p>Mae cyfuniad o ysgolion cynradd 3-11 a 4-11 yn y sir ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar ddarpariaeth feithrin ar hyn o bryd, a disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno i aelodau etholedig yn y 6 mis nesaf i'w ystyried.</p> <p>Pe bai pob ysgol yn y sir yn 3 -11 yna byddai perygl bod darparwyr nas cynhelir yn mynd yn anghynaliadwy. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn ystyried sut y byddai ei bolisiau'n effeithio ar ddarparwyr preifat.</p>	1	3%
5.	<p>Cyllid Nododd ymatebwyr y bydd angen darparu adnoddau ariannu priodol.</p>	<p>Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu yn unol â'r Polisi Ariannu Teg yn seiliedig ar nifer y disgyblion.</p>	1	3%
6.	<p>Cyfleusterau sydd eu hangen Nododd ymatebwyr, er eu bod yn llwyr gefnogi'r cynnig, y byddai angen gwneud newidiadau yn yr ysgol er mwyn i'r newid arfaethedig yn yr ystod oedran weithio'n effeithiol e.e. maes parcio mwy i staff a chyfnewid yr ystafell ddosbarth bresennol</p>	<p>Mae'r ysgol wedi bod yn rhedeg cynllun peilot llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd gan ddefnyddio'r cyfleusterau sydd eisoes ar gael yn yr ysgol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i fuddsoddi yn yr ysgol, ond mae'r Adran wrthi'n cynnal adolygiad o'i Rhaglen Moderneiddio Addysg sy'n cynnwys holl ysgolion y sir.</p>	1	3%

	am un bwrpasol ar gyfer y Meithrin/Derbyn.			
Pryderon a Godwyd				
1.	Cydraddoldeb Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid darparu darpariaeth gyfartal ar draws y sir ac y dylai hynny fod wedi cael ei roi ar waith yn gynt.	<p>Mae cyfuniad o ysgolion cynradd 3-11 a 4-11 yn y sir ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar ddarpariaeth feithrin ar hyn o bryd, a disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno i aelodau etholedig yn y 6 mis nesaf i'w ystyried.</p> <p>Pe bai pob ysgol yn y sir yn 3 -11 yna byddai perygl bod darparwyr nas cynhelir yn mynd yn anghynaliadwy. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn ystyried sut y byddai ei bolisiau'n effeithio ar ddarparwyr preifat.</p> <p>Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg cynllun peilot ers nifer o flynyddoedd. Mae canlyniadau'r cynllun peilot wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r Awdurdod Lleol bellach yn dymuno bwrw ymlaen â chynnig i newid ystod oedran yr ysgol i 3-11 trwy ymgynghoriad ffurfiol.</p>	2	6%
2.	Cyllid Nododd ymatebwyr y bydd angen darparu adnoddau ariannu priodol.	Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu yn unol â'r Polisi Ariannu Teg yn seiliedig ar nifer y disgyblion.	1	3%

Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Sir Gâr i newid yr ystod oedran yn ffurfiol o 4 i 11 i 3 i 11 yn Nyffryn y Swistir i ymgorffori darpariaeth feithrin o 1 Medi 2021.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Gâr.

Y cynnig yw newid yr ystod oedran yn Ysgol Dyffryn y Swistir o 4 i 11 i 3 i 11, i ymgorffori darpariaeth feithrin yn yr ysgol gan wneud yr ysgol yn gydnaws â'r rhan fwyaf o'r ysgolion eraill yn yr ardal o 1 Medi 2021. Dywed Cyngor Sir Gâr eu bod wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd a chyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru.

Crynodeb/ Casgliad

Datblygwyd y cynnig yn unol â gweledigaeth y cyngor i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl fanc, a gwella ac egluro'i ddarpariaeth addysgol.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safon bresennol y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymeg glir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir ei fod yn credu y bydd y newid mewn ystod oedran yn gwella'r capasiti ar gyfer plant yn y gymuned leol ac yn llai dryslyd i rieni. Hefyd, mae'n golygu y bydd yr ysgol yn gydnaws â'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn yr ardal. Mae'r ysgol wedi cynnal cynllun peilot er 2013 fel ystod oedran 3 i 11, y mae ei ddeilliannau wedi bod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, caiff yr ysgol ei hysbysebu o hyd fel ysgol ag ystod

oedran 4 i 11 oed, sy'n ddryslyd i rieni gan nad yw'n gwneud yn glir pa ddarpariaeth feithrin sydd ar gael.

Mae'r cynigiwr yn diffinio'n glir fanteision disgwylidig y cynnig i gynyddu'r ystod oedran. Mae'n ymddangos bod y rhain yn rhesymol ac ystyrlon. Maent yn cynnwys:

- cyfnod pontio di-dor o'r dosbarth meithrin i'r ysgol gynradd
- egluro i rieni beth mae'r ysgol yn ei gynnig
- cyfle am fwy o swyddi yn yr ysgol
- lleihau'r bwlch cyrhaeddiad i ddisgyblion o gefndiroedd diffreintiedig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried anfanteision y cynnig. Maent yn cynnwys:

- gostyngiad yn y galw am leoedd mewn meithrinfeydd preifat
- diweithdra o ganlyniad i'r diffyg galw am feithrinfeydd preifat

Mae'r cynigiwr wedi rhoi manylion am y risgiau cysylltiedig, fel methu cael cefnogaeth ar gyfer y cynnig, wedi rhestru gwrth-fesurau ac ystyried opsiynau eraill. Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth am niferoedd y disgyblion ysgol feithrin yn yr ardal er 2016, a gwybodaeth am gapasiti disgyblion. Nid yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw wybodaeth am sut gallai disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gael eu heffeithio. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i sut bydd y cynnig yn gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3 blwydd oed.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried goblygiadau ariannol y cynnig ac yn datgan na fydd yna unrhyw newid i'r cyllid. Mae'r cynnig yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer ymgynghori a sut gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldeb.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n cyfeirio at arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgol.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn

Mae'r cynigiwr yn diffinio'n glir fanteision disgwylidig y cynnig i gynyddu'r ystod oedran. Mae'n ymddangos bod y rhain yn rhesymol ac ystyrlon.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i sut bydd y cynnig yn gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3 blwydd oed.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad manwl o'r effaith ar gydraddoldeb.

Materion a godwyd gan Estyn ac ymatebion yr ALI

- 1. Nid yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw wybodaeth am sut gallai disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gael eu heffeithio.*

Ymateb yr ALI

Ni fwriedir i'r cynnig gael effaith niweidiol ar unrhyw ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae ysgolion yn darparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgu plant, a gefnogir gan becynnau dysgu personol gydag ymyriadau, strategaethau a chyfleoedd wedi'u targedu'n unigol a'r cymorth sydd ei angen i gyflawni hyn.

Bernir bod sefydlu dosbarth Meithrin yn Ysgol Swiss Valley o fudd mawr i blant yr ardal sydd ag anghenion ychwanegol. Mae asesiadau sylfaenol yn nodi'r disgyblion hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, ac mae ymyrraeth gynharach yn amlwg yn arwain at ddeilliannau gwell yn ddiweddarach ym mywyd plentyn. Pan fydd y plant yn dechrau yn y feithrinfa beilot, maent yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt, fel sy'n digwydd yng ngweddill yr ysgol. Felly, gallant gael gafael ar gymorth amlasiantaethol yn gynharach yn eu datblygiad, er enghraifft, cymorth Iaith a Lleferydd cynnar, cyngor Seicolegwyr Addysg, Cymorth o Amgylch y Teulu, cyngor nam ar y golwg, ymyrraeth cymorth ymddygiad, ac ati.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc

Darparwyd fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori i'r ysgol i'w dosbarthu i bob disgybl.

Digwyddiad Ymgynghori â Disgyblion

Ysgol: Ysgol Swiss Valley

Dyddiad: 05/02/21

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan: Ymgynghorydd Cymorth Addysgol

Y sawl a gafodd eu cyfweid: Cynrychiolwyr Ysgol (cynhaliwyd ar-lein)

Sylwadau a nodwyd yn ystod y Digwyddiad Ymgynghori â Disgyblion:

1. Beth ydych chi'n ei feddwl am yr ysgol yn cadw ei dosbarthiadau i blant 3 oed?

Syniad da iawn – dechrau'n iau. Gwneud yr ysgol yn fwy a gallant gwrdd â mwy o bobl. Fach iawn o ferched sydd yn fy nosbarth, ond byddai mwy o ferched pe bai meithrinfa wedi bod gyda ni. Eu cael i ddysgu'n iau. Os oes angen i rieni fynd i'r gwaith gallant eu hanfon yno a gallant ddysgu. Mae plant yn cael eu haddysgu mewn ffordd wahanol i'r hyn fyddent pe baent yn mynd i *creche* – arferion, llythrennedd a rhifedd. Cymdeithasu a gwneud ffrindiau yn iau. Mwy tebygol o'u hanfon i Swiss Valley - nid oes gan ysgolion eraill 3-11. Mae'n well eu bod yn dysgu yn ifanc. Syniad da – setlo i mewn yn iau.

2. Beth yw manteision (pethau da) bod mewn ysgol 3-11 oed?

Fel yr uchod. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddwl ei fod yn syniad da i'r ALI hysbysebu'r ffaith bod meithrinfa. Mae plant bach yn cyfarwyddo â fformat a threfn arferol yr ysgol.

3. Ydych chi'n cofio bod yn y feithrinfa neu ydych chi'n nabod rhywun yn y feithrinfa – beth oedd yn dda am y feithrinfa? Beth allai fod yn well?

Aeth fy chwaer i'r feithrinfa ac roedd yn help mawr iddi x2. Aeth fy mrawd i'r feithrinfa ac roedd yn ei hoffi'n fawr x2 a daeth yn fwy annibynnol a gwneud ffrindiau. Roedd fy mrawd wedi ei fwynhau ac roedd yn ddigon hapus yn symud

i'r dosbarth derbyn. Aeth ffrind yno ac fe ddysgodd lawer o sgiliau. Fe wnaeth helpu fy mrawd gyda'i leferydd.

4. A oes unrhyw anfanteision (pethau drwg) o fod yn ysgol 3-11? A oes unrhyw beth y byddech yn bryderus amdano?

Gwneud yn siŵr bod digon o le yn y ffreutur. Mwy o staff os bydd y rhifau'n codi.

Opsionau Eraill

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, rhoddwyd cyfle i randdeiliaid gyflwyno opsiynau eraill i'w hystyried. Nodir isod yr opsiynau eraill (nad ydynt eisoes wedi'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori) sydd wedi dod i law a chânt eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

Newid ystod oedran pob ysgol i 3-11 a chaniatáu darpariaeth feithrin amser llawn	
Manteision	Anfanteision
Parhad y ddarpariaeth ar draws y sir	Risg na fydd darparwyr nas cynhelir yn gynaliadwy
Pontio effeithiol o ddarpariaeth feithrin i ddarpariaeth gynradd	Diffyg lle digonol ym mhob ysgol i gynnwys darpariaeth feithrin
Darpariaeth gofal plant/addysg amser llawn o oedran cynnar	Model darpariaeth costus os na fydd neb yn manteisio arno